# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 10 MAWRTH 2021, trwy Zoom.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Yr Athro Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr David Moyle; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Ms Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber (tan gofnod 36); Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Dr Guy Baron; Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; Yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Anoush Simon; a'r Athro Andrew Thomas. |
| Yn gweinyddu: | Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Rachael Davey; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mr John Morgan; a Dr Sarah Wydall.

**28. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR**

1. Croeso

   Etholwyd yr Athro Simon Banham yn eilydd i'r adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Byddai'n gwasanaethu ar y Senedd tra bod Dr Ffion Jones i ffwrdd.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. John Corfield, cyn Brif Arddwr;
   2. Morton Davies, cyn Uwch Ddarlithydd yn yr Adran Mathemateg; a
   3. Tun Dr Mohamed Salleh Abas, Cymrawd Anrhydeddus.

**29. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**30. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020, a 05 Chwefror 2021 (SEN2021-039).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar wneud un cywiriad i restr yr aelodau'n bresennol ar 05 Chwefror 2021 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**31. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2021-040).

NODWYD

1. Covid-19: Amgylchiadau Arbennig a Drws Trugaredd (cofnod 19.3.8)

   Er bod y penderfyniad yr oedd hyn yn gysylltiedig ag ef wedi ei ddisodli gan y penderfyniadau a wnaed gan y Senedd yn ei gyfarfod arbennig ar 05 Chwefror 2021, byddai dadansoddiad yn cael ei baratoi i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd, a'i adrodd wrth y Senedd wedi hynny, ynglŷn â chanlyniadau myfyrwyr ar ddiwedd semester un o'i gymharu â chanlyniadau tebyg mewn blynyddoedd blaenorol.

2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**32. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-041).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar achosion ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd materion eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd, sef:

1. diwygiad i reoliadau, er mwyn mynnu bod myfyrwyr yn darparu manylion cyswllt mewn argyfwng; a

2. rheoliadau terfynol y cwrs cenedlaethol MA Addysg (Cymru).

**33. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**34. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2021-042).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Rhaid i gyflwyniad y Brifysgol i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FFRHY) 2021 fod i mewn ar ddiwedd y mis. Bu hyn yn ymdrech 7 mlynedd, ac mae'r gwaith wedi cyflymu a chynyddu'n ddramatig dros yr wythnosau diwethaf. Diolchwyd i'r adrannau am eu cyfraniadau, a gofynnwyd iddynt ymateb yn ddi-oed i unrhyw ymholiadau munud olaf gan y tîm FfRhY, er mwyn sicrhau bod y cyflwyniad yn cael ei anfon erbyn y dyddiad cau.

3. Ar gais y Cyngor, roedd yr Is-Ganghellor yn adolygu'r datblygiadau a wnaed o'i gymharu â Chynllun Strategol 2018-23. Er y gwnaed cynnydd da yn gyffredinol yng nghyswllt amcanion strategol, collwyd momentwm yn yr ymdrechion i gynyddu gweithgaredd ymchwil oherwydd sefyllfa Covid-19. Felly, roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) yn datblygu cynlluniau i roi hwb i ymchwil er mwyn dod dros effeithiau'r pandemig ac i gynyddu'r gweithgaredd y tu hwnt i'r lefelau cyn y pandemig.

4. Penodwyd Darlithwyr Cyswllt a Chynorthwywyr Addysgu Graddedig eisoes y tymor hwn o dan y fenter i hyrwyddo ymchwil, a'r nod oedd y byddai darparu cymorth addysgu ychwanegol yn caniatáu mwy o amser i ymchwil. Gwnaed cynlluniau hefyd i benodi i gadeiriau penodol yn rhan o ddathliadau 150 y Brifysgol yn 2022.

5. Cafodd y cynlluniau i atgyfnerthu gweithgaredd ymchwil yn y sefydliad eu croesawu gan yr aelodau, a phwysleisiwyd pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng cefnogi ymchwilwyr ar ddechrau gyrfa a phenodi ymchwilwyr sefydledig i safleoedd newydd ar lefel cadair.

6. Hyd yn hyn, roedd 69 y cant o israddedigion ar eu trydedd flwyddyn wedi ymateb i Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr am eleni. Ystyriwyd bod hyn yn lefel rhyfeddol o ystyried yr amgylchiadau.

7. Bu cynnydd ar draws yr holl adrannau yn nifer y ceisiadau o'r Deyrnas Gyfunol gan israddedigion a chan fyfyrwyr rhyngwladol am fynediad ym mis Medi 2021. Byddai'r cynnydd hwn yn gwneud iawn am y gostyngiad yn nifer y ceisiadau o'r Undeb Ewropeaidd gan na fyddai'r ymgeiswyr yn gymwys i dalu ffioedd ar yr un lefel ag ymgeiswyr o Brydain o'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen. Mae sylw'r Brifysgol yn awr yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r ceisiadau'n dderbyniadau cadarn.

8. Ni wnaed penderfyniad terfynol hyd yn hyn ynglŷn â seremonïau graddio eleni. Pe na bai modd cynnal dathliadau'r haf, byddai digwyddiadau dathlu eraill yn nes ymlaen yn y flwyddyn yn cael eu hystyried.

**35. AROLWG GWELLA ANSAWDD (CYMRU)**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Dr Alan Macmillan (SEN2021-043).

NODWYD

1. Cynhelir Arolwg Gwella Ansawdd allanol nesaf y Brifysgol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym mis Ebrill 2022. Cafodd gweithgor ei sefydlu i arwain y paratoadau o safbwynt y Brifysgol.

2. Yn dilyn trafodaethau ar lefel genedlaethol rhwng y Cyngor Cyllido, yr ASA, a phrifysgolion yng Nghymru, cytunwyd ar gwmpas ac amserlen ddiwygiedig i'r Adolygiadau Gwella Ansawdd am weddill y cylch adolygu i ymateb i bandemig COVID-19. Byddai'r cwmpas diwygiedig yn canolbwyntio'n unig ar sicrhau ansawdd, gyda'r bwriad o gynnal adolygiad gwella ansawdd ar wahân yn y dyfodol. Hefyd, roedd yr ASA wedi nodi mai ei fwriad oedd cadarnhau canlyniad yr Adolygiad Gwella Ansawdd blaenorol yn y Brifysgol, yn hytrach na chynnal ail brawf.

3. Mae'n debygol y byddai gan y diwygiadau hyn oblygiadau i drefniadau'r Brifysgol. Disgwylir na fydd angen cymaint o staff ar gyfer y broses bellach, ac y bydd angen cyflwyno llai o waith papur i'r Adolygiad ymlaen llaw.

**36. MODEL DYRANNU A RHEOLI LLWYTH GWAITH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd) (SEN2021-044).

NODWYD

1. Bu'r Model Dyrannu a Rheoli Llwyth Gwaith cyfredol yn ei le ers 2016 ac mae angen ei adolygu i adlewyrchu'r fframwaith newydd o gyfadrannau a gyflwynwyd yn 2018. Felly, arweiniwyd adolygiad o'r Model cyfredol gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd).

2. Roedd trefn bwyntiau yn cael ei chynnig ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau gweinyddol, arweinyddiaeth, ymchwil a gweithgareddau addysgu. Seilir y pwyntiau ar: nifer y myfyrwyr, nifer y credydau, natur y swyddogaeth, neu faint y maes academaidd perthnasol.

3. Codwyd amheuon gan rai aelodau ynglŷn â chywirdeb y data am niferoedd myfyrwyr a staff academaidd eu hadrannau, sef data a ddefnyddid yn sail i bennu'r pwyntiau cymwys. Cytunwyd y byddai angen adolygu cywirdeb y data. Ond, dywedodd yr Is-Ganghellor bod cyflenwad staff academaidd pob adran yn addas yn fras i nifer y myfyrwyr a oedd gan bob un.

4. Teimlai'r aelodau na fyddai seilio pwyntiau'r model ar faint yr adran yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r amser sydd ei angen, oherwydd bod angen i gydweithwyr academaidd mewn adrannau llai ymgymryd â mwy o faich gweinyddol yn aml.

5. Codwyd pryderon eraill am y model arfaethedig, gan gynnwys: yr angen i gydnabod amser paratoi am addysgu ac arholiadau; a rhoi digon o amser i ymchwil, yn enwedig i'r aelodau staff nad yw eu diddordebau ymchwil o angenrheidrwydd yn cyd-daro â'u meysydd addysgu. Teimlwyd hefyd y byddai'r model diwygiedig yn rhoi llai o le i adrannau weithredu fel y gwelant sydd orau iddynt hwy, ac roedd Penaethiaid Adrannau wedi dibynnu ar hynny'n flaenorol i wneud i'r Model cyfredol weithio.

6. Cydnabu'r aelodau y dylai'r Model fod yn offeryn pwysig ar gyfer trin staff yn gyfartal, er y byddai'n anodd dod o hyd i ddatrysiad a fyddai'n plesio pawb, a derbyniwyd mai'r

tueddiad cyffredinol oedd bod staff academaidd yn gweithio mwy na'r 1650 awr a ddyrennir trwy'r Model.

**PENDERFYNWYD**

7. Cadw at y Model cyfredol wrth ddisgwyl ymgynghori pellach, ac y dylid paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r darpar fodel i'w ystyried gan y Senedd [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd)].

**37. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-045).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 25 Chwefror 2021. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Rheoliadau Academaidd: Terfynau Amser Dysgu o Bell

    1. Cafodd mân addasiadau eu cynnig i'r adran Cyfnod Cofrestru a Therfynau Amser, yn Rheoliadau Dyfarniadau Uwchraddedig trwy Gwrs a'r Rheolau Symud Ymlaen sy'n gysylltiedig â chynlluniau Uwchraddedig trwy Gwrs, a nodir yng Nghonfensiynau'r Arholiadau. Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau'n cyfeirio at gynlluniau pum mlynedd ond ers rhai blynyddoedd cafodd rhaglenni dysgu o bell dwy a thair blynedd eu cymeradwyo.

    2. Nodwyd geiriad y diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau hyn yn yr adroddiad.

    **PENDERFYNWYD**

    3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Academaidd ar Derfynau Amser Dysgu o Bell [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

3. Rheoliadau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (YAA)

    1. Ym mis Rhagfyr 2020, roedd y Grŵp Llywio Uwchraddedig wedi ystyried YAA mewn modiwlau hyfforddiant ymchwil ac wedi argymell y dylid addasu'r rheoliadau YAA i ystyried y ffaith nad oedd y rheoliad fel y saif yn gweithredu'n effeithiol mewn achosion o YAA yn ymwneud â myfyrwyr ymchwil uwchraddedig ar fodiwlau a ddysgir trwy gwrs.

    2. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad.

    **PENDERFYNWYD**

    3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau YAA [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

4. Disgyblu Myfyriwr

    1. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd sawl adroddiad ynglŷn â myfyrwyr yn torri cyfyngiadau Covid-19. Argymhellwyd felly y dylid gwneud yn glir beth yw natur yr

hyn y gellid gofyn i Benaethiaid Adran ymchwilio iddo, ac y dylid cynnwys Rheolwyr y Cyfadrannau ymhlith yr aelodau staff a gaiff gynnal archwiliadau Categori 1.

2. Roedd y diwygiadau a gynigir i baragraff 23 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd i roi'r argymhelliad hwn ar waith wedi eu nodi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i baragraff 23 y Llawlyfr Ansawdd [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

5. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Apeliadau ac Adolygiadau Terfynol

Roedd y Bwrdd Academaidd wedi derbyn crynodeb o gwynion, apeliadau ac adolygiadau terfynol a ystyriwyd yn 2020, ac roedd hyn wedi'i atgynhyrchu yn yr adroddiad. Roedd crynodeb o'r materion a ystyriwyd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch wedi'i gynnwys hefyd.

6. Ymddygiad Academaidd Annerbyniol 2019-20

Roedd y Bwrdd Academaidd wedi derbyn crynodeb o'r materion a ystyriwyd o dan reoliadau YAA yn ystod 2019-20. Er bod nifer yr achosion a amheuwyd yn llai na'r llynedd gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr achosion a gadarnhawyd.

**38. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2021-046).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 23 Chwefror 2021.

2. Adroddiadau Cloriannu Perfformiad Partner (CPP) ar Gytundebau Rhyddfraint gyda Choleg Cambria a Choleg Gwent.

DERBYNIWYD

Adroddiadau cyfansawdd gan y Rheolwr Partneriaethau Academaidd Laura McSweeney, a'r Rheolwr Partneriaethau Academaidd Annamarie Arden; yn ymgorffori adroddiadau Cloriannu Perfformiad Partner ar Gytundebau Rhyddfraint gyda Choleg Cambria a Choleg Gwent (SEN2021-047).

NODWYD

1. Llofnodwyd y Rhyddfraint gyda Choleg Cambria ym mis Hydref 2016 am gyfnod pum mlynedd, yn dod i ben ym mis Hydref 2021. Llofnodwyd Memorandwm Cytundeb wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2017.

2. Llofnodwyd y Rhyddfraint gyda Choleg Gwent ym mis Tachwedd 2017 a byddai'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021 yng nghyswllt Astudiaethau Ceffylau. Roedd y rhyddfraint wreiddiol yn cynnwys FdSc Amaethyddiaeth, ond gan na chofrestrodd unrhyw fyfyrwyr ar y rhaglen, cafodd ei diddymu.

3. I sicrhau bod Coleg Cambria a Choleg Gwent yn dal yn addas i fod yn sefydliadau partner, cafodd arolygiadau cloriannu perfformiad partner eu cynnal a'u hadrodd wrth Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol. Roedd y paneli cloriannu'n argymell datblygu achosion busnes i adnewyddu'r rhyddfreiniau hyn.

4. Proses fewnol y Brifysgol yn achos trefniadau partneriaeth rhyddfraint oedd i Weithrediaeth y Brifysgol ystyried yr achos busnes (agweddau ariannol), ac i'r Senedd ystyried yr achos academaidd (safonau a sicrwydd ansawdd).

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo adnewyddu'r cytundebau rhyddfraint gyda Choleg Cambria a Choleg Gwent o safbwynt sicrwydd academaidd, ar ôl i'r cytundebau contract cyfredol ddod i ben [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd].

**39. ADRODDIAD O'R BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN2021-048).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 02 Mawrth 2021. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. <u>Diweddariad ar y Cylch Derbyn Israddedigion</u>

   Er y byddai canlyniadau terfynol yr arholiadau Safon Uwch yn cael eu rhyddhau i fyfyrwyr ar 10 Awst 2021, dywedwyd wrth fyfyrwyr yng Nghymru a byddent yn cael gwybod canlyniadau amodol eu harholiadau Safon Uwch ym mis Mehefin.

**40. ADRODDIAD O'R PWYLLGOR YMCHWIL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Monitro Ymchwil a'r FfRhY (SEN2021-049).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymchwil ar 02 Rhagfyr 2020.

2. Cafodd cyfarfod y Pwyllgor a oedd i'w gynnal ym mis Chwefror 2021 ei ohirio am fod y dyddiad cyflwyno i'r FfRhY ar y trothwy. Byddai trafodaethau'r cyfarfod a ad-drefnwyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Senedd yn y cyfarfod nesaf.

**41. PWYLLGOR MOESEG YMCHWIL Y BRIFYSGOL**

1. Cylch Gorchwyl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2021-050).

NODWYD

1. Cafodd cylch gorchwyl cyfredol Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ei ddiwygio ddiwethaf ym mis Chwefror 2019, ac felly daeth yn amser ei adolygu. Roedd nifer o fân addasiadau'n cael eu cynnig, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

2. Rhwng Ebrill 2021 ac Ebrill 2022, byddai Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil yn cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg am gyfnod dros dro ar ran y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi). Felly roedd yr addasiadau arfaethedig i'r cylchoedd gorchwyl yn ymdrin â'r newid dros dro hwn.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r addasiadau arfaethedig i gylch gorchwyl Pwyllgor Moeseg y Brifysgol [**GWEITHREDU:** Y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil].

**42. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2021-051);
2. Grantiau Ymchwil (SEN2021-052); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2021-053).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**43. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2021-054):

1. Y Bwrdd Academaidd (25 Chwefror 2021);
2. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (10 Chwefror 2021);
3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (10 Tachwedd 2020, a 23 Chwefror 2021);
4. Y Pwyllgor Ymchwil (10 Rhagfyr 2020); a
5. Y Cyngor (26 Tachwedd 2020 a 14 Ionawr 2021).

NODWYD

6. <u>Y Bwrdd Academaidd: Cwestiynau Hen Bapurau Arholiad (cofnod 60)</u>

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cyngor a roddwyd ynglŷn ag ailddefnyddio papurau a chwestiynau arholiad wedi'i fwriadu i roi egwyddorion yn ganllawiau, ac nid i gyfarwyddo academyddion i ailddefnyddio cwestiynau mewn dull penodol.

7. Yr adroddiadau eraill a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.